# Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

# Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2017-2018

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.**

Lluniwyd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Safonau'r Gymraeg** | **1** |
| **Yr Her** | |
| **Rhoi'r Safonau ar Waith** | |
| **Bodloni'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau** | **4** |
| **Bodloni'r Safonau Llunio Polisi** | **11** |
| **Bodloni'r Safonau Gweithredol** | **12** |
| **Bodloni'r Safonau Hybu** | **17** |
| **Cwynion** | **18** |
| **Atodiad** | **19** |

## Safonau'r Gymraeg

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 a osodwyd ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru yn nodi cyfres o safonau ymddygiad o ran y Gymraeg. Cafodd y safonau eu grwpio fel a ganlyn:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredol
- hybu
- cadw cofnodion

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) (2011), caniatawyd i Gomisiynydd y Gymraeg gymhwyso safonau yr ystyrid eu bod yn rhesymol ac yn gymesur, ynghyd â dyddiadau gosod (dyddiadau gofynnol ar gyfer cydymffurfio) i'r cyrff hyn.

## Yr Her

Heriwyd 54 o'r Safonau gan y cyngor ym mis Ionawr 2016 ar y sail eu bod yn afresymol ac yn anghymesur o ran graddfa amser, lefelau staffio, neu'r arian ychwanegol yr oedd ei angen i gydymffurfio. O ganlyniad, ac yn unol ag adran 60(2) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'r gofyniad i'r cyngor gydymffurfio â'r safonau hyn wedi'i ohirio nes i'r canlynol ddigwydd:

a) mae'r comisiynydd wedi penderfynu a yw'r gofyniad yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio, ac

b) mae hawliau'r cyngor i apelio wedi'u dihysbyddu.

Mae'r broses herio wedi bod yn hir ac yn anodd. Fodd bynnag, yn ystod 2017-2018, roedd trafodaethau parhaus â chynrychiolwyr y Comisiynydd wedi helpu i egluro'r dehongliad o'r safonau fel y maent yn berthnasol i'r cyngor. O ganlyniad, roeddem wedi gallu ailasesu'n sefyllfa a nodi nifer o safonau yr oeddem yn gallu cydymffurfio â hwy yn ogystal â safonau yr oedd modd eu gweithredu'n ymarferol ar ôl eu haddasu rhywfaint.

Felly, yn ystod 2017-2018, penderfynwyd ar y rhan fwyaf o'r safonau a oedd yn cael eu herio, gan gynnwys rhai na chawsant eu cymhwyso. Yn dilyn mwy o gyfarfodydd â chynrychiolwyr y Comisiynydd yn ystod rhan olaf 2017-2018, datryswyd materion a oedd yn ymwneud â'r safonau a oedd yn weddill. Derbyniwyd penderfyniad terfynol y Comisiynydd ar 28 Ebrill 2018.

Atodir yr hysbysiad cydymffurfio a oedd yn ddilys yn ystod 2017-2018 yn **Atodiad 1** er gwybodaeth. Mae'r hysbysiad cydymffurfio hwn hefyd yn nodi pa safonau a arhosodd yn rhan o'r her ac nid ydynt felly'n rhan o'r adroddiad.

## Rhoi'r Safonau ar Waith

Y cyngor sy'n bennaf gyfrifol am roi'r safonau ar waith, gyda'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau ar waith er mwyn sicrhau cydymffurfiad. Yn ogystal, rydym yn cydnabod bod gan bob aelod o staff rôl i'w chwarae er mwyn gweithredu'r safonau'n llwyddiannus.

Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol y Penaethiaid Gwasanaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio rhoi'r safonau ar waith ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o gyfarwyddiaethau'r cyngor yn ogystal ag Aelod Hyrwyddo Cydraddoldeb y Cabinet.

Ailsefydlwyd Grŵp Swyddogion y Gymraeg yn 2016 er mwyn cefnogi gweinyddu'r safonau a'u rhoi ar waith, i helpu i ddatrys materion yn gynnar ac i gefnogi staff wrth gyflwyno gwasanaethau'n unol â'r dyletswyddau a osodwyd ar y cyngor.

Mae'r grŵp wedi bod yn allweddol wrth sefydlu prosesau ar gyfer cael gwybodaeth am ddewis iaith, nodi testun priodol i'w ddefnyddio mewn llofnodion e-byst etc., yn ogystal â bod yn ysgogwr ar gyfer ymgyrchoedd ymwybyddiaeth mewnol ac allanol.

Adroddir am weithredoedd Grŵp Swyddogion y Gymraeg i Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol y Penaethiaid Gwasanaeth, ac mae'r grŵp hwn yn ei dro'n adrodd amdanynt i dimau rheoli'r gyfarwyddiaeth er gwybodaeth/at ddibenion gweithredu.

Yn ystod 2017-2018, Pwyllgor Craffu Polisïau ac Adnoddau a Bwrdd Cabinet y cyngor oedd yn gyfrifol am adolygu gweithredu'r safonau'n rheolaidd ac roeddent hefyd yn gyfrifol am fonitro perfformiad yn erbyn y safonau. Pan ddatgomisiynwyd y Pwyllgor Craffu Polisïau ac Adnoddau a Bwrdd y Cabinet ym mis Mai 2018, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb i'r Cabinet a Phwyllgor Craffu'r Cabinet.

Mae'r holl wybodaeth a'r deunydd cefnogi sy'n ymwneud â rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith ar gael ar y fewnrwyd, ac maent yn hygyrch i bob aelod o staff. Rhoddir cyhoeddusrwydd i'r hyn sy'n ofynnol gan staff wrth roi gofynion y safonau ar waith drwy'r Grŵp Rheoli Corfforaethol, timau rheoli cyfarwyddiaethau a chyfarfodydd tîm yn ogystal â thrwy ddulliau cyhoeddusrwydd mewnol arferol y cyngor e.e. y cylchlythyr mewnol, ‘In the Loop’.

**Bodloni'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau**

Yn ystod rhan olaf 2017-2018, dechreuom weithio gyda Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot i nodi meysydd ar gyfer gwella wrth roi'r safonau ar waith. Mae Menter Iaith Castell-nedd Port wedi cynnal archwiliad o'r 20 o dudalennau mwyaf poblogaidd ar ein gwefan a'n prif linell ffôn ac ymarferion siopwr dirgel ar draws nifer o feysydd gwasanaeth ac mae'n helpu i ddatblygu geiriadur Cymraeg o dermau ac ymadroddion a ddefnyddir yn aml mewn cyfryngau cymdeithasol. Mae hefyd yn darparu cyngor a chefnogaeth wrth i ni ddatblygu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, derbyniwyd adroddiad drafft gan Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn dilyn cynnal yr awdit uchod, ac roedd yr adborth yn gyffredinol gadarnhaol. Teimlai'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth a gymerodd ran yn yr awdit eu bod yn gallu defnyddio'u hiaith o ddewis a bod camau wedi'u cymryd i wella'r gwasanaethau rheng flaen dros y misoedd diweddar. Er bod hyn yn arbennig o wir o ran y prif rif ffôn, roedd nifer o bobl yn llai bodlon pan fu angen gwybodaeth benodol neu arbenigedd arnynt, a chawsant eu trosglwyddo o'r gweithredydd rheng flaen i adran; yn aml, nid oedd modd parhau â'r sgwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Menter Iaith wedi cydnabod bod hyn yn 'gwbl ddealladwy o ystyried bod llai na 10% o weithwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn siarad Cymraeg'.

> *'Wrth i ni edrych ar y mesurau niferus yr oedd Castell-nedd Port Talbot wedi apelio yn eu herbyn, roeddem yn pryderu na fyddai unrhyw wasanaethau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae pethau fel cael gweithredwr ffôn dwyieithog wedi gwella pethau, ac er nad yw'r gwasanaeth yn berffaith, gallwn weld bod gwelliannau bach.'* ***Preswyliwr o CNPT***

Dangosodd adroddiad Menter Iaith fod y meysydd gwasanaeth yn gyffredinol wedi ymateb i ohebiaeth ysgrifenedig a gohebiaeth e-bost mewn modd amserol, fodd bynnag roedd rhai gwasanaethau heb ymateb. Rydym yn edrych ar hyn fel mater o flaenoriaeth er mwyn deall y rhesymau dros y sefyllfa hon a sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i wella amserau ymateb.

Pan fyddwn yn derbyn adroddiad terfynol Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot, byddwn yn ystyried dulliau priodol i fynd i'r afael yn llawn â chasgliadau'r awdit a fydd yn sicrhau y gwneir mwy o welliannau.

Cyfieithu

Mae cyfieithu, gan gynnwys amserlenni a chostau, wedi bod yn brif ystyriaeth i'r cyngor ers i'r safonau gael eu rhoi ar waith. Mae swmp y gwaith cyfieithu a logisteg cyfieithu'r holl ddogfennau a'r deunyddiau perthnasol wedi rhoi pwysau sylweddol ar wasanaethau, ac mae hyn yn debygol o gynyddu dros y blynyddoedd i ddod. Gan fod nifer cyfyngedig o siaradwyr Cymraeg wedi'u cyflogi gan y cyngor sy'n hyderus o ran eu sgiliau ysgrifenedig, mae mwy o bwysau wedi'i roi ar yr Uned Gyfieithu, gwasanaeth a rennir â Dinas a Sir Abertawe, ers rhoi'r safonau ar waith.

Cynyddodd costau sy'n gysylltiedig â chyfieithu yn ystod 2016-2017 pan roddwyd y safonau ar waith am y tro cyntaf. Er y cafwyd gostyngiad sylweddol mewn costau yn ystod 2017-2018, rhagwelir y caiff hyn ei wrthdroi yn ystod 2018-2019 pan fydd gofynion Safon 41 yn dod i rym ac y bydd angen adolygu dogfennau â therfynau amser tynn.

| | **2016-2017** | **2017-2018** |
|---|---|---|
| Cyfanswm y costau cyfieithu (lle gellir eu nodi) | £72,009 | £57,579 |

**Gohebiaeth**

Mae templedi penawdau llythyrau'n cynnwys y testun safonol 'Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg, a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni' sy'n adlewyrchu gofynion y safonau perthnasol.

## Dewis iaith

Er mwyn cadarnhau dewis iaith person, mae llofnodion e-byst bellach yn cynnwys y testun 'Os hoffech ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r cyngor, cliciwch yma'. Mae'r hyperddolen yn cysylltu â ffurflen ar-lein sydd, pan gaiff ei llenwi, yn cofrestru dewis iaith person yn awtomatig ar gronfa ddata y gall gwasanaethau ei chyrchu a'i defnyddio. Cyflwynwyd hyn ym mis Ebrill 2017 ond ar ddiwedd mis Mawrth 2018, nid oedd neb wedi cofrestru i dderbyn gohebiaeth/galwadau ffôn yn Gymraeg. Rhoddwyd gwybod i staff am y newid hwn i'r llofnod a sefydlu'r gronfa ddata drwy gylchlythyr mewnol y cyngor ym mis Mai 2017.

## Prif rif ffôn

Yn ystod 2017-2018, cofnodwyd 1,303 (1.04%) o alwadau i'r gwasanaeth Cymraeg drwy'r prif rif ffôn. Cyfanswm y galwadau a dderbyniwyd ar gyfer yr un cyfnod drwy'r prif rif ffôn oedd 125,094. Dyma berfformiad y cyngor wrth ateb galwadau Cymraeg o'i gymharu â galwadau Saesneg yn ystod yr un cyfnod:

| | **2016-2017** | | **2017-2018** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Galwadau Cymraeg** | **Galwadau Saesneg** | **Galwadau Cymraeg** | **Galwadau Saesneg** |
| Amser cyfartalog i ateb | 18 eiliad | 21 eiliad | 23 eiliad | 18 eiliad |
| Cyfradd wedi'i gadael | 10.8% | 3.71% | 15.1% | 2.64% |
| (wedi'i haddasu ar gyfer gadael yr alwad o fewn 5 eiliad) | (139 o 1,280) | (5,371 o 144,785) | (197 o 1,303) | (3,302 o 125,094) |

Mae nifer y galwadau o'i gymharu â 2016/17 wedi aros yn debyg; 1,280 o alwadau o'u cymharu â 1,303 yn 2017-2018. Roedd y cynnydd bach yn y galwadau a adawyd o ganlyniad i'r gostyngiad bach mewn galwadau cyffredinol sydd wedi arwain at gynnydd yn y garan o alwadau a adawyd.

At ddibenion cymharu, mae'r amser a gymerir i ateb rhwng galwadau Cymraeg a rhai Saesneg a nifer llai y swyddogion dwyieithog sydd ar gael yn golygu y gall amserau aros fod ychydig yn uwch ac o ganlyniad, gall galwadau a adawyd fod ychydig yn uwch fel canran. Gall y nifer llawer llai o alwadau olygu yr effeithir yn fwy ar ganrannau o'u cymharu â gweddill galwadau'r Ganolfan Gyswllt lle ceir degau ar filoedd o alwadau.

### Galwadau ffôn i linellau uniongyrchol

Gan fod gofynion y safonau mewn perthynas ag ateb llinellau uniongyrchol yn adlewyrchu arfer a gweithdrefnau sefydledig yn y cyngor, nid oedd angen llawer o addasu ac eithrio atgoffa staff am y gweithdrefnau drwy nodiadau arweiniol, cyfarfodydd tîm a dulliau cyhoeddusrwydd mewnol eraill.

Diweddarwyd y cyfeiriadur gweithwyr yn ystod y flwyddyn i nodi staff sy'n gallu defnyddio'u sgiliau iaith ac yn barod i wneud hynny, er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg, naill ai yn eu maes gwaith eu hunain neu'n fwy cyffredinol ar draws gwasanaethau eraill. Ar ddiwedd mis Mawrth 2018, nodwyd yn y cyfeiriadur bod 94 o staff â sgiliau Cymraeg, mwy na dwywaith y nifer ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

### Y cyfryngau cymdeithasol

Mewn ymateb i Safonau'r Gymraeg, mae cyfrifon Twitter a Facebook Cymraeg wedi'u creu. Ar 31 Mawrth 2018:

| | 30 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| Twitter | | |
| Cyfrif corfforaethol Saesneg - | 10,705 o ddilynwyr | 11,937 o ddilynwyr |
| Cyfrif corfforaethol Cymraeg - | 98 o ddilynwyr | 160 o ddilynwyr |
| Facebook | | |
| Cyfrif corfforaethol Saesneg - | 4,783 o ddilynwyr | 6,337 o ddilynwyr |
| Cyfrif corfforaethol Cymraeg - | 22 o ddilynwyr | 27 o ddilynwyr |

Yn ogystal, mae gan feysydd gwasanaeth unigol eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eu hunain; cyfanswm o 80.

Yn ystod 2017-2018, wrth gydnabod yr angen cynyddol i ddarparu gwasanaeth mwy digymell ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol yn ogystal â mewn ymateb i fethiant yn ein prosesau a sefydlwyd yn flaenorol, sefydlom swydd Cynnwys Cyfryngau. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg corfforaethol mor rhagweithiol ac ymatebol â phosib i negeseuon.

O ganlyniad i gyfyngiadau o ran adnoddau a chyfyngiad ar recriwtio, mae ein gallu i ddarparu gwasanaeth drwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg a Saesneg mewn meysydd gwasanaeth unigol yn gyfyngedig. Mae negeseuon a gynllunnir ar gael yn ddwyieithog ond mae'r iaith a ddefnyddir mewn negeseuon digymell yn dibynnu ar sgiliau iaith yr aelod o staff sy'n gyfrifol am bostio neges i'r cyfrif. Fodd bynnag, wrth sefydlu swydd Cynnwys Cyfryngau yn ogystal â datblygu geiriadur o dermau ac ymadroddion a ddefnyddir yn aml, rydym yn disgwyl gweld cynnydd graddol yn nifer y cyfathrebiadau Cymraeg.

**Y wefan wedi'i diweddaru ac yn ddwyieithog**

Fel rhan o ymgyrch barhaus y cyngor i ddarparu gwybodaeth gliriach a mwy hygyrch, ymgymerwyd â gwaith i ddiweddaru a symleiddio'r wefan yn ogystal â sicrhau bod y cynnwys y mae'r cyngor yn gyfrifol amdano'n ddwyieithog.

Roedd 100% (1,103 o we-dudalennau) o'n gwe-dudalennau'n ddwyieithog ar 31 Mawrth 2018, o'i chymharu â 99.9% (1,095 o 1,096) ar 31 Mawrth 2017.

Yn ystod 2017-2018, cafwyd 2,845,526 o ymweliadau â'n gwefan, gyda 24,192 (0.85%) o'r rhain ar y tudalennau Cymraeg; wrth gymharu hyn â 2016-2017, lle cafwyd 2,838,679 o ymweliadau gyda 21,230 (0.75%) o'r rhain â'r tudalennau Cymraeg.

**Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus**

Ers ei Gynllun Iaith Gymraeg cyntaf, mae'r cyngor wedi bod yn ymrwymedig i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn yr ardaloedd hynny lle mae'r iaith yn amlwg, gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd lle bo angen. Mae gweithdrefnau ar gyfer trefnu'r fath gyfarfodydd wedi'u hen sefydlu ac wedi aros yr un peth ar y cyfan. Serch hynny, mae gofynion manylach y safonau wedi galw am rai diwygiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr arweiniad diwygiedig i staff.
Er bod nifer y digwyddiadau cyhoeddus a gynhelir gan y cyngor wedi gostwng dros y blynyddoedd diweddar, mae gweithdrefnau ar gyfer trefnu digwyddiadau'n parhau ac, fel gyda gweithdrefnau ar gyfer trefnu cyfarfodydd cyhoeddus, maent wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r Safonau ac wedi'u cyfleu i'r holl staff.

**Derbynfeydd**

Mae staff yn ein derbynfeydd yng Nghanolfannau Dinesig Castell-nedd a Phort Talbot yn gwisgo bathodynnau sy'n nodi eu bod yn siarad/dysgu Cymraeg. Fodd bynnag, mae rhai achosion lle nad oes modd darparu gwasanaeth Cymraeg mewn derbynfeydd oherwydd absenoldeb yr aelodau staff hynny, ac mae trefniadau amgen ar waith i ddarparu gwasanaeth Cymraeg. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r trefniadau hyn sy'n defnyddio staff o feysydd gwasanaeth eraill fel a nodwyd yn y cyfeiriadur gweithwyr sydd ar gael ar y fewnrwyd.

Er bod y safon sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth Cymraeg mewn derbynfeydd yn destun her, yn ystod 2017-2018 roedd 15 (0.02%) o bobl yn dymuno ac wedi gallu cynnal eu hymholiad trwy gyfrwng y Gymraeg, o gyfanswm o 65,259 o ymholiadau, ac mae hyn yn cymharu â 26 o bobl (0.03%) o gyfanswm o 71,589 o ymholiadau yn 2016-2017.

## Bodloni'r Safonau Llunio Polisi

Parheir i ddefnyddio'r asesiad effaith cydraddoldeb diwygiedig wrth ddatblygu polisïau a strategaethau, ac mae'r ddau ar gael i staff ar dudalen Asesiad Effaith Cydraddoldeb yr Hwb Perfformiad ar y fewnrwyd.

Yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017, fel rhan o'u sesiynau sefydlu, derbyniodd aelodau etholedig hyfforddiant ar amrywiaeth o destunau gan gynnwys cydraddoldeb; ffocws y sesiynau oedd Cyflwyniad i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gwneud penderfyniadau'n effeithiol, Safonau'r Gymraeg a rolau a chyfrifoldebau aelodau. Roedd y sesiynau'n cynnwys rhan benodol ar y broses asesu effaith cydraddoldeb, gan ystyried gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, Safonau'r Gymraeg a gofynion mewn perthynas ag ymgynghori (deddfwriaeth ac arfer da).

Diwygiwyd y ffurflen a'r arweiniad asesiad effaith unwaith eto tua diwedd 2017-2018 i ystyried gofynion deddfwriaethol ychwanegol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd 2016. Disgwylir i'r broses asesu ddiwygiedig gael ei chyflwyno ym mis Medi 2018 yn dilyn sesiynau hyfforddi a dargedir i'r staff hynny â chyfrifoldeb am ddatblygu polisïau a strategaethau ac ysgrifennu'r adroddiadau i'r Cabinet/Byrddau Cabinet sy'n cyd-fynd â'r rhain. Bydd aelodau etholedig hefyd yn derbyn hyfforddiant i ymgyfarwyddo â'r gofynion newydd ac i atgyfnerthu gofynion presennol y Gymraeg a chydraddoldeb.

### Grantiau

Hysbyswyd staff perthnasol o'r gofynion mewn perthynas â cheisiadau grant a ffurflenni cais a/neu wybodaeth sy'n ymwneud â cheisiadau grant, sydd wedi'u diweddaru i fodloni'r gofynion. Diwygiwyd ffurflenni cais a deunydd atodol ar gyfer Grant y Trydydd Sector 2018-2019 i adlewyrchu gofynion Safonau'r Gymraeg, a bydd yr adroddiadau monitro cyntaf yn cynnwys y gofynion hyn ym mis Ionawr 2019.

## **Bodloni'r Safonau Gweithredol**

Mae'r Safonau Gweithredol yn ymwneud yn bennaf â swyddogaethau adnoddau dynol a gweinyddiaeth fewnol y cyngor. Mae nifer o'r safonau hyn yn adlewyrchu ymrwymiadau a nodwyd yn y Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol; hyfforddiant, gofynion iaith a hysbysebu swyddi. Serch hynny, mewn rhai achosion mae gofynion y safonau'n fwy na'r ymrwymiadau blaenorol, yn arbennig o ran swyddogaethau adnoddau dynol.

Mae datblygiad porth i weithwyr wedi galluogi staff i ddiweddaru/olygu eu manylion presennol e.e. enw, cyfeiriad, sgiliau iaith a gwybodaeth bersonol arall. Mae'r porth hwn wedi galluogi staff i ddiweddaru gwybodaeth bersonol yn y fan a'r lle ac ar amser sy'n gyfleus iddynt. Mae'r porth ar gael i staff drwy'r fewnrwyd, ar ffonau symudol ac ar ddyfeisiau eraill.

### Polisïau

Mae'r holl bolisïau a nodwyd yn y safonau wedi'u cyfieithu ac maent bellach ar gael i staff drwy adran Adnoddau Dynol y fewnrwyd.

### Gwybodaeth a chefnogaeth

Mae dogfennaeth gefnogi sy'n cynnwys, er enghraifft, lofnodion e-bost, arweiniad i staff, yr hysbysiad cydymffurfio a sut i ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu, ar gael yn adran Safonau'r Gymraeg ar y fewnrwyd. Mae'r tudalennau Adnoddau Dynol sy'n cynnwys gwybodaeth am bolisïau, swyddi gwag a dogfennaeth berthnasol arall hefyd ar y fewnrwyd.

Mae erthyglau amrywiol sy'n rhoi cyngor a chefnogaeth i staff er mwyn bodloni gofynion y Safonau wedi'u cynnwys yng nghylchlythyr mewnol y cyngor sef 'In the Loop' yn ystod 2017-2018; gan gynnwys nodiadau atgoffa am ddefnyddio llofnodion e-bost a negeseuon 'Nid wyf yn y Swyddfa' dwyieithog, cyrsiau hyfforddiant iaith ar-lein a'r wybodaeth am y ffurflen a'r gronfa ddata dewis iaith.

Mae Grŵp Swyddogion y Gymraeg wedi bod yn allweddol wrth sefydlu prosesau ar gyfer casglu a chofnodi dewis iaith, nodi testun priodol i'w ddefnyddio mewn llofnodion e-bost etc.; yn ogystal â bod yn ysgogwr ar gyfer ymgyrchoedd ymwybyddiaeth yn fewnol ac yn allanol. Yn ogystal, darperir cyngor a chefnogaeth i roi'r Safonau ar waith gan gynrychiolwyr y grŵp; ceir dealltwriaeth a rennir o faterion a gallu i weithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i atebion a phryd bynnag y bo angen, symud y mater yn ei flaen a'i gyflwyno i Benaethiaid Gwasanaeth y Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol.

**Asesu Sgiliau Cymraeg**

Mae sgiliau iaith yn parhau i gael eu cofnodi ar gyfer gweithwyr newydd drwy'r ffurflen cais am swydd. Datblygwyd y porth gweithwyr sy'n galluogi gweithwyr i ddiweddaru amrywiaeth o wybodaeth yn eu cofnod Adnoddau Dynol; gan gynnwys eu sgiliau Cymraeg. Fodd bynnag, erys y math hwn o asesu sgiliau'n wrthrychol iawn ac felly nid yw o reidrwydd yn fanwl gywir, yn enwedig pan dangynrychiolir sgiliau. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym yn ystyried cyflwyno proses asesu iaith fwy strwythuredig a fydd, er y caiff ei hunanasesu o hyd, yn darparu canllawiau cliriach i seilio'r asesiad arnynt.

Dyma nifer y gweithwyr a chanddynt sgiliau Cymraeg:

| | 2016-2017 | 2017-2018 |
|---|---|---|
| Siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn weddol rugl | 181 | 174 |
| Siarad Cymraeg yn weddol rugl | 131 | 126 |
| Siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl | 425 | 429 |
| Siarad Cymraeg yn rhugl | 101 | 94 |
| Dysgu Cymraeg | 716 | 748 |

Gofynnwyd i staff a oedd yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl/weddol rugl i nodi eu gallu a'u parodrwydd i ddefnyddio'u sgiliau iaith yn eu maes gwasanaeth eu hunain neu mewn unrhyw faes gwasanaeth er mwyn darparu gwasanaeth i aelodau'r cyhoedd pe bai angen; Gwnaed hynny gan 101 aelod o staff.

**Recriwtio**

Rydym wedi gweithio i sicrhau bod y broses recriwtio ar gael yn Gymraeg, o ffurflenni cais a dogfennau ategol i'r broses gyfweld. Mae hysbysebion recriwtio wedi bod ar gael yn Gymraeg ac wedi'u cyhoeddi'n unol â gofynion y Safonau; 'lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu mae angen eu dysgu, rhaid i chi (a) nodi hynny wrth hysbysebu'r swydd a (b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg.'

**Swyddi gwag**

Yn ystod y flwyddyn, mae'r holl swyddi newydd neu wag wedi'u hasesu ynghylch yr angen am sgiliau Cymraeg drwy 'ffurflen manylion swydd' a gyflwynir gan reolwyr i'r Tîm Gwybodaeth am y Gweithlu, a'i recordio ganddynt. Mae manylion ynghylch nifer a chategori'r swyddi a aseswyd ar gyfer sgiliau iaith i'w gweld isod.

Mae nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn ystod 2017-2018 wedi'u categoreiddio fel a ganlyn:

| | 2016-2017 | 2017-2018 |
|---|---|---|
| Sgiliau Cymraeg yn ddymunol | 79 | 174 |
| Sgiliau Cymraeg yn hanfodol | 15 | 36 |
| Nid oedd angen sgiliau Cymraeg | 313 | 641 |
| Angen dysgu sgiliau Cymraeg wedi iddynt gael eu penodi i'r swydd | 0 | 3 |

Yn ystod 2017-2018 cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y swyddi a hysbysebwyd, 854 o'i gymharu â 407 yn 2016-2017; serch hynny, roedd y swyddi hyn yn cynnwys contractau achlysurol, tymhorol a dros dro.

Fel y gwelwyd uchod, yn ystod 2017-2018, hysbysebwyd ymhell dros ddwywaith nifer y swyddi lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol o'i gymharu â 2016-2017.

Yn 2017-2018 dynodwyd y swyddi cyntaf lle’r oedd dysgu Cymraeg yn ofyniad ar gyfer penodi.

**Meddalwedd cyfrifiadurol**

Er bod meddalwedd gwirio sillafu ar gael drwy Microsoft Windows, prynwyd nifer o drwyddedau meddalwedd Cysgliad yn ystod y flwyddyn i ddefnyddwyr unigol ac rydym yn ystyried prynu trwydded ar gyfer y cyngor cyfan.

**Hyfforddiant yn y Gymraeg**

Mae adran Hyfforddiant a Datblygiad y fewnrwyd, sy'n ceisio darparu gwybodaeth ac arweiniad ar hyfforddiant y Gymraeg a chyfleoedd datblygu, y grŵp sgwrsio Cymraeg 'Sgwrs' a'r Cynnig Gweithredol, Mwy na Geiriau etc. yn cael ei datblygu o hyd.

Hyd yn hyn, sicrhawyd bod pedair rhan o'r cwrs 'Cyflwyniad i Ddysgu Cymraeg' 10 wythnos (20 awr) ar gael i staff â diddordeb mewn dysgu Cymraeg, gan gynnwys rheolwyr.  Cofrestrwyd 51 aelod o staff o'r awdurdod lleol a darparwyr gofal cymdeithasol a gomisiynir, a chwblhawyd y cwrs yn llwyddiannus gan 32 ohonynt.

Mae cyrsiau 'Cymraeg i Oedolion' hefyd ar gael i staff sy'n cynnig hyfforddiant o ddechreuwyr i lefel uwch. Telir am y cyrsiau drwy gyllidebau hyfforddiant, a rhoddir diwrnod i chi fynd ar y cwrs. Mae 23 aelod o staff wedi cofrestru ar gwrs 'Cymraeg Gwaith' sy'n galluogi dechreuwyr i ddysgu ymadroddion a chyfarchion Cymraeg syml a luniwyd yn benodol i'w defnyddio mewn amgylchedd gwaith.
Nid yw'r grŵp 'Sgwrs' i staff sy'n siarad/yn dysgu Cymraeg er mwyn annog y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, gartref ac yn y gymuned, wedi cwrdd yn 2017-2018. Fodd bynnag, yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn ystyried ailsefydlu'r grŵp 'Sgwrs' gyda’r nod o sicrhau ei fod yn hunangyfeiriedig yn y dyfodol.

Mae sawl cyhoeddiad ar gael i'w fenthyg gan y Tîm Dysgu, Hyfforddiant a Datblygu; maent yn cynnwys llyfrau ymadroddion, llyfrau cyrsiau, geiriaduron a llyfrau stori. Mae'r Adran Hyfforddiant hefyd wedi hyrwyddo rhestr o aps amrywiol sydd ar gael ar gyfer dysgu Cymraeg ac am y Gymraeg a luniwyd gan Lywodraeth Cymru.

Parheir i ddarparu cyrsiau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i weithwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n ymwneud â darparu asesiadau mewn perthynas â myfyrwyr gwaith cymdeithasol, ac mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gorfodol yn cael ei ddarparu o hyd i'r holl fyfyrwyr gwaith cymdeithasol a gynhelir gan y cyngor.

Mae gwaith i ddatblygu cyrsiau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein wedi hen ddechrau, a bwriedir iddo fod ar gael i'w gyrchu erbyn mis Medi 2018.

**Gwybodaeth i weithwyr newydd**

Mae rheolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod sesiynau sefydlu i weithwyr newydd yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, gofynion Safonau'r Gymraeg, ynghyd â'u hysbysu o fodolaeth a lleoliad deunydd ac offer cefnogi i'w helpu i fodloni gofynion y safonau.

**Bodloni'r Safonau Hybu**

Cynhwyswyd y safonau hybu yn her y cyngor ond oherwydd cydnabuwyd na all y cyngor yn unig fod yn gyfrifol am gynnal neu gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal, penderfynwyd ar y safonau hyn yn ystod 2017-2018.

Wrth ddatblygu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg, parhaom i gymryd ymagwedd drawsbleidiol a fu'n sylfaen i ymagwedd y cyngor at broses Safonau'r Gymraeg. Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen a aelodau etholedig ym mis Ionawr 2018 ar gais Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Chydraddoldeb (y mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys y Gymraeg) i ddatblygu strategaeth. Dros y misoedd dilynol, mae'r grŵp, gyda chyngor a chefnogaeth Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot, wedi datblygu Strategaeth ddrafft er mwyn Hyrwyddo'r Gymraeg, sy'n destun ymgynghori ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Ar ôl ystyried ymatebion yr ymgynghoriad a diwygio'r strategaeth yn briodol, rhagwelir y cyflwynir fersiwn derfynol i'r Cabinet ei chymeradwyo ym mis Awst 2018.

**Cwynion**

Derbyniwyd pum cwyn yn ystod 2017-2018; tair yn ymwneud â chydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, un yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg wrth ymdrin ag isadran Treth y Cyngor ac un yn ymwneud â gohebiaeth yn ystod yr ymgynghoriad ar Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Derbyniwyd tair cwyn drwy Gomisiynydd y Gymraeg ac anfonwyd y ddwy arall yn uniongyrchol i'r maes gwasanaeth perthnasol.

Dyma'r cwynion a dderbyniwyd drwy Gomisiynydd y Gymraeg:

Mehefin 2017 - yn gysylltiedig â pheiriannau tocynnau parcio. Ystyrid nad oeddent yn darparu gwasanaeth a oedd yn gweithredu'n llawn yn y Gymraeg. Dadleuodd y cyngor yn erbyn hyn, ond bwriad y Comisiynydd yw penderfynu yn erbyn y cyngor a gosod cam gorfodi sef newid y peiriannau i fodloni dehongliad y Comisiynydd o Safon 60. Mae'r cyngor yn parhau â'i drafodaeth â'r Comisiynydd ynghylch y gŵyn hon.



Tachwedd 2017 - yn ymwneud â methiant i ymateb i neges drydar ar y cyfrif Twitter corfforaethol. Ymatebon ni i gais y Comisiynydd am dystiolaeth i ddangos nad oedd y diffyg ymateb yn fwriadol, ac mae nifer o ffactorau a phrosesau, gan gynnwys sefydlu swydd Cynnwys Cyfryngau, wedi'u rhoi ar waith i ddatrys y mater. Rydym yn aros am benderfyniad y Comisiynydd.

Rhagfyr 2017 - yn ymwneud â negeseuon Saesneg yn unig ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol unigol. Rydym yn ymrwymedig i fodloni'n rhwymedigaethau o dan Safonau'r Gymraeg, fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau o ran adnoddau a chyfyngiadau ar recriwtio, mae ein gallu i ddarparu gwasanaeth drwy'r cyfrifon hyn yn Gymraeg a Saesneg yn gyfyngedig. Drwy sefydlu swydd Cynnwys Cyfryngau a chyda'r gwaith cyfredol i ddatblygu geiriadur Cymraeg o dermau ac ymadroddion a ddefnyddir yn aml, rydym yn disgwyl gweld cynnydd yn nifer y cyfathrebiadau sy'n bodloni'r Safonau'n llawn. Ystyriwn fod yr ymagwedd hon yn rhesymol ac yn gymesur yn ein hamgylchiadau lleol.  Rydym yn aros am benderfyniad y Comisiynydd.

Cwynion eraill:

Treth y Cyngor -ni chynigiwyd cyfle i berson siarad yn Gymraeg, ymddiheurwyd iddo ac atgoffwyd staff am y gweithdrefnau pe bai cwsmeriaid am siarad trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (ymgynghoriad) - cyflwynwyd sylwadau yn Gymraeg ond roedd yr ymateb y gofynnwyd amdano i gydnabod y derbyniwyd y sylwadau yn Saesneg yn unig. Yn ogystal, nid oedd y llofnod e-bost yn unol â thestun safonol y cyngor. Ymddiheurodd y gwasanaeth am y diofalwch, a sicrhawyd bod staff wedi cael eu hatgoffa am ofynion ymateb i ohebiaeth Gymraeg a bod llofnodion e-bost wedi'u diweddaru.

## Herio Dyletswyddau y Dyfodol

**Ar 15/01/2016 derbyniodd y Comisiynydd geisiadau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot o dan adran 54(2) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.**

O ganlyniad, ac yn unol ag adran 60(2) y Mesur, mae'r gofyniad ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i gydymffurfio gyda safonau **22, 41, 61, 62, 64, 84, 86, 99, 100** wedi ei ohirio hyd nes bydd:

a) y Comisiynydd wedi dyfarnu a yw'r gofyniad yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio, a
b) hawliau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i apelio wedi eu disbyddu.

## HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO – ADRAN 44 MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – Dyddiad Dyroddi: 30/09/2015

| **Rhif Safon** | **Dosbarth o Safon** | **Safon** | **Diwrnod Gosod** |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg. | 30/03/2016 |
| 2 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn gohebu ag unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw’n dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny rhaid ichi -<br>(a) cadw cofnod o ddymuniad A,<br>(b) gohebu yn Gymraeg ag A wrth ohebu ag A o hynny ymlaen, ac<br>(c) anfon unrhyw ffurflenni y byddwch yn eu hanfon at A o hynny | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ymlaen yn Gymraeg. | |
| 3 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at ddau unigolyn sy'n aelodau o'r un aelwyd (er enghraifft, rhieni plentyn) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i'r unigolion hynny a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg, ac os -<br>(a) yw'r ddau unigolyn yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'u dymuniad, a gohebu yn Gymraeg o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny;<br>(b) yw un o'r unigolion (ond nid y ddau) yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a darparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny. | 30/03/2016 |
| 4 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni. | 30/03/2016 |
| 5 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw. | 30/03/2016 |
| 6 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd). | 30/03/2016 |
| 7 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi ddatgan -<br>(a) mewn gohebiaeth, a<br>(b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. | |
| 8 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg. | 30/03/2016 |
| 9 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. | 30/03/2016 |
| 10 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r person yn dymuno hynny (gan drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg os yw hynny'n angenrheidiol). | 30/03/2016 |
| 12 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 30/03/2016 |
| 13 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol. | 30/03/2016 |
| 14 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg. | 30/03/2016 |
| 15 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg. | |
| 16 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg. | 30/03/2016 |
| 17 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. | 30/03/2016 |
| 19 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg -<br>(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a<br>(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. | 30/03/2016 |
| 20 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person. | 30/03/2016 |
| 21 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthych yn Gymraeg; ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ymlaen yn Gymraeg. | |
| 22 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg. | 30/09/2016 |
| 24 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i P a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw. | 30/03/2016 |
| 24A | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch wedi gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, a bod P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu). | 30/03/2016 |
| 26 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd unigolyn ("A") i gyfarfod, a bod y cyfarfod yn ymwneud â llesiant A, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu A y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw. | 30/03/2016 |
| 26A | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg ar gael mewn cyfarfod-<br>(a) os yw'r cyfarfod yn ymwneud â llesiant unigolyn ("A") a wahoddwyd, a<br>(b) os yw A wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu. | 30/03/2016 |
| 27 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. | 30/03/2016 |
| 27A | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod. | |
| 27D | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu). | 30/03/2016 |
| 29 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod y cyfarfod hwnnw yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, rhaid ichi -<br>(a) gofyn i'r unigolyn hwnnw neu i bob un o'r unigolion hynny a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a<br>(b) hysbysu'r unigolyn (neu'r unigolion hynny) y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw. | 30/03/2016 |
| 29A | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn cyfarfod -<br>(a) os ydych wedi gwahodd mwy nag un person i'r cyfarfod,<br>(b) os yw'r cyfarfod yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, ac<br>(c) os oes o leiaf un o'r unigolion hynny wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu. | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 30 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. | 30/03/2016 |
| 31 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg. | 30/03/2016 |
| 32 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi -<br>(a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu). | 30/03/2016 |
| 33 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg -<br>(a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.<br>**Rhaid cydymffurfio â safon 33 ymhob amgylchiad, ac eithrio:**<br>○ **pan fo gwahoddiad neu hysbyseb i'r cyfarfod wedi gofyn i bersonau eich hysbysu a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, a bod dim un person wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.** | 30/03/2016 |
| 34 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd hwnnw'n cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | |
| 35 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad). | 30/03/2016 |
| 36 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo). | 30/03/2016 |
| 37 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | 30/03/2016 |
| 38 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | 30/03/2016 |
| 41 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio'r dogfennau a ganlyn rhaid ichi eu llunio yn Gymraeg -<br>(a) agendâu, cofnodion a phapurau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd, sy'n ymwneud â chyfarfod o fwrdd rheoli neu gabinet;<br>(b) agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfodydd, | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cynadleddau neu seminarau sy'n agored i'r cyhoedd.<br>**Rhaid cydymffurfio â safon 41 (a) ymhob amgylchiad, ac eithrio:**<br>- **papurau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd yn ymwneud â chyfarfod o fwrdd rheoli neu gabinet.**<br>**Rhaid cydymffurfio â safon 41 (b) ymhob amgylchiad, ac eithrio:**<br>- **papurau eraill ar gyfer cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd.** | |
| 42 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw drwydded neu dystysgrif yr ydych yn ei llunio gael ei llunio yn Gymraeg.<br><br>**Rhaid cydymffurfio mewn perthynas â thrwydded neu dystysgrif a gyhoeddir ymhob amgylchiad.**<br><br>**Rhaid cydymffurfio mewn perthynas â thrwydded neu dystysgrif a roddir i berson, ac na chaiff ei gyhoeddi yn yr amgylchiadau canlynol:**<br>**a) pan fyddwch wedi cynnig llunio'r drwydded neu dystysgrif yn Gymraeg i berson, a**<br>**b) pan fo'r person hwnnw wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno derbyn y drwydded neu dystysgrif yn Gymraeg.** | 25/03/2018 |
| 43 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw lyfryn, taflen, pamffled neu gerdyn yr ydych yn ei lunio neu ei llunio er mwyn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd gael ei lunio neu ei llunio yn Gymraeg. | 30/03/2016 |
| 44 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio'r dogfennau a ganlyn, a'u bod ar gael i'r cyhoedd, rhaid ichi eu llunio yn Gymraeg -<br>(a) polisïau, strategaethau, adroddiadau blynyddol a chynlluniau | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | corfforaethol;<br>(b) canllawiau a chodau ymarfer;<br>(c) papurau ymgynghori. | |
| 45 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw reolau yr ydych yn eu cyhoeddi sy’n gymwys i’r cyhoedd gael eu cyhoeddi yn Gymraeg. | 30/03/2016 |
| 46 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn rhyddhau unrhyw ddatganiad i’r wasg, rhaid ichi ei ryddhau yn Gymraeg, ac os oes fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddatganiad, rhaid ichi ryddhau’r ddwy fersiwn ar yr un pryd. | 30/03/2016 |
| 47 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio dogfen at ddefnydd y cyhoedd, a phan nad oes safon arall wedi ei gwneud yn ofynnol ichi ei llunio yn Gymraeg, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg -<br>(a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu<br>(b) os yw’r gynulleidfa a ragwelir, a’u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio’r ddogfen yn Gymraeg. | 30/03/2016 |
| 48 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na’r fersiwn Saesneg. | 30/03/2016 |
| 49 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg. | 30/03/2016 |
| 50 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei llunio at ddefnydd y cyhoedd gael ei llunio yn Gymraeg. | 30/03/2016 |
| 50A | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. | 30/03/2016 |
| 50B | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi sicrhau nad yw’r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r fersiwn Saesneg, a rhaid ichi beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy’n berthnasol i’r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno’r ffurflen neu mewn perthynas â’r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen). | |
| 51 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn mewnosod gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o’r cyhoedd er mwyn iddo wirio’r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid ichi sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei mewnosod yn cael ei mewnosod yn Gymraeg. | 30/03/2016 |
| 52 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau -<br>(a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,<br>(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu’n llawn, ac<br>(c) nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg ar eich gwefan. | 30/03/2016 |
| 55 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy’n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi’n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol. | 30/03/2016 |
| 56 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi ddarparu’r rhyngwyneb a’r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg. | 30/03/2016 |
| 57 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu’n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg o ran yr ap hwnnw. | 30/03/2016 |
| 58 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 59 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). | 30/03/2016 |
| 60 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau bod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth sydd gennych yn gweithio'n llawn yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw. | 30/03/2016 |
| 61 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | 30/03/2016 |
| 62 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | 30/03/2016 |
| 63 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant. | 30/03/2016 |
| 64 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa yr ydych yn ei roi ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg beidio â chael ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg.<br>**Rhaid cydymffurfio â safon 64 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Mawrth 2016:**<br>○ **Prif wasanaeth derbynfa'r corff** | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Rhaid cydymffurfio â safon 64 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Medi 2016:**<br><br>○ **Pob gwasanaeth derbynfa arall** | |
| 67 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa. | 30/03/2016 |
| 68 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny. | 30/03/2016 |
| 69 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw hysbysiad swyddogol yr ydych yn ei gyhoeddi neu ei arddangos gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono. | 30/03/2016 |
| 70 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad swyddogol sy'n cynnwys y testun Cymraeg yn ogystal â'r testun Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | 30/03/2016 |
| 71 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt. | 30/09/2016 |
| 72 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. | 30/03/2016 |
| 72A | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau). | |
| 74 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais rhaid ichi -<br>(a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i'r ymgeisydd allu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, a<br>(b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfweliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu). | 30/03/2016 |
| 75 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg. | 30/03/2016 |
| 76 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.<br><br>**Rhaid cydymffurfio â safon 76 yn yr amgylchiadau isod:**<br>**(a) os yw pwnc y gwahoddiad i dendro am gontract yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg, neu**<br>**(b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cyhoeddi'r gwahoddiad yn Gymraeg.** | 04/10/2017 |
| 77 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin | 04/10/2017 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg. | |
| 77A | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi beidio â thrin tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwyr am benderfyniadau). | 04/10/2017 |
| 79 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr rhaid ichi -<br>(a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg fel bod modd i'r tendrwr ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, a<br>(b) os yw'r tendrwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfweliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu). | 04/10/2017 |
| 80 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg. | 04/10/2017 |
| 81 | Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg. | 30/03/2016 |
| 82 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg. | 30/03/2016 |
| 83 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 30/03/2016 |
| 84 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg. | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Rhaid cydymffurfio â safon 84 ymhob amgylchiad, ac eithrio:**<br>◦ **pan fo asesiad a gynhaliwyd yn unol â safon 86 yn dod i'r casgliad nad oes angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg.** | |
| 86 | Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn datblygu cwrs addysg sydd i'w gynnig i'r cyhoedd, rhaid ichi asesu'r angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; a rhaid ichi sicrhau bod yr asesiad wedi ei gyhoeddi ar eich gwefan. | 30/03/2016 |
| 87 | Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf. | 30/03/2016 |
| 88 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 30/09/2016 |
| 89 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 30/09/2016 |
| 90 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na | 30/09/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |
| 91 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 30/09/2016 |
| 92 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 30/09/2016 |
| 93 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 30/09/2016 |
| 94 | Llunio Polisi | Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant -<br>(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai yw'r rheini'n bositif neu'n | 30/09/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar -<br>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg;<br>(b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai’n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -<br>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg;<br>(c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai’n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai’n cael effeithiau llai andwyol ar -<br>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg;<br>(ch) a oes angen ichi ofyn i’r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar -<br>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | |
| 95 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu’n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i’ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu’n rhai andwyol), y byddai’r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | 30/09/2016 |
| 96 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu’n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i’ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o | 30/09/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |
| 97 | Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar -<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 30/09/2016 |
| 98 | Gweithredu | Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd. | 30/03/2016 |
| 99 | Gweithredu | Pan fyddwch yn cynnig swydd newydd i unigolyn, rhaid ichi ofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os yw'r unigolyn yn dymuno hynny rhaid ichi ddarparu'r contract yn Gymraeg. | 30/09/2016 |
| 100 | Gweithredu | Rhaid ichi -<br>(a) gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, ac sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol, yn Gymraeg, a<br>(b) os yw cyflogai yn dymuno hynny, ddarparu unrhyw ohebiaeth o'r fath iddo yn Gymraeg. | 30/09/2016 |
| 101 | Gweithredu | Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion ei hyfforddiant yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg. | 30/09/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 102 | Gweithredu | Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg. | 30/09/2016 |
| 104 | Gweithredu | Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi -<br>(a) gwyliau,<br>(b) absenoldebau o'r gwaith, ac<br>(c) oriau gwaith hyblyg,<br>yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ffurflenni o'r fath iddo yn Gymraeg. | 30/09/2016 |
| 105 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 30/09/2016 |
| 106 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch iechyd a lles yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 30/09/2016 |
| 107 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 30/09/2016 |
| 108 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch rheoli perfformiad, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 30/09/2016 |
| 109 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 30/09/2016 |
| 110 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch amodau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 30/09/2016 |
| 111 | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch patrymau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg. | 30/09/2016 |
| 112 | Gweithredu | Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o'ch staff -<br>(a) gwneud cwynion ichi yn Gymraeg, a | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (b) ymateb i unrhyw gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg. | |
| 112A | Gweithredu | Rhaid ichi ddatgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff -<br>(a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a<br>(b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg;<br>a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno. | 30/03/2016 |
| 114 | Gweithredu | Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi -<br>(a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod;<br>(b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu). | 30/03/2016 |
| 115 | Gweithredu | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir gan yr aelod hwnnw, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano ef, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff -<br>(a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg,<br>(b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef,<br>(c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu<br>(ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn. | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 116 | Gweithredu | Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol. | 30/03/2016 |
| 116A | Gweithredu | Rhaid ichi -<br>(a) datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a<br>(b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno. | 30/03/2016 |
| 118 | Gweithredu | Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi -<br>(a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a<br>(b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac, os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu). | 30/03/2016 |
| 119 | Gweithredu | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff -<br>(a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg,<br>(b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu<br>(c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu. | 30/03/2016 |
| 120 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael). | |
| 122 | Gweithredu | Rhaid ichi sicrhau -<br>(a) bod testun hafan eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg,<br>(b) bod unrhyw destun Cymraeg ar hafan eich mewnrwyd (neu, pan fo'n berthnasol, bod hafan Gymraeg eich mewnrwyd) yn gweithredu'n llawn, ac<br>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â hafan eich mewnrwyd. | 30/03/2016 |
| 124 | Gweithredu | Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid darparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol. | 30/03/2016 |
| 125 | Gweithredu | Rhaid ichi neilltuo a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar eich mewnrwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo eich staff i ddefnyddio'r Gymraeg. | 30/03/2016 |
| 127 | Gweithredu | Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion. | 30/09/2016 |
| 130 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith -<br>(a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a<br>(b) i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr. | 30/03/2016 |
| 131 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith. | 30/03/2016 |
| 132 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu -<br>(a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);<br>(b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gymraeg;<br>(c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle. | |
| 133 | Gweithredu | Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o’r Gymraeg. | 30/03/2016 |
| 134 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy’n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu’n dysgu’r iaith. | 30/03/2016 |
| 135 | Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu geiriad ar gyfer eich cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o’u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy’n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon ebost. | 30/03/2016 |
| 136 | Gweithredu | Pan fyddwch yn asesu’r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu’r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a’i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o’r canlynol yn gymwys -<br>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;<br>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i’r swydd;<br>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu<br>(ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol. | 30/03/2016 |
| 136A | Gweithredu | Os byddwch wedi categoreiddio swydd fel un sy’n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi -<br>(a) pennu hynny wrth hysbysebu’r swydd, a<br>(b) hysbysebu’r swydd yn Gymraeg. | 30/03/2016 |
| 137 | Gweithredu | Pan fyddwch yn hysbysebu swydd, rhaid ichi ddatgan y caniateir i | 04/10/2017 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. | |
| 137A | Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi -<br>(a) ffurflenni cais am swyddi;<br>(b) deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeisio am swyddi;<br>(c) gwybodaeth am eich proses gyf-weld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi;<br>(ch) swydd-ddisgrifiadau;<br>rhaid ichi eu cyhoeddi yn Gymraeg a rhaid ichi sicrhau nad ydych yn trin unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt.<br>**Rhaid cydymffurfio â safon 137A ymhob amgylchiad, ac eithrio:**<br>◦ **swydd ddisgrifiadau pan fo'r swydd wedi ei chategoreiddio fel un lle nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.** | 04/10/2017 |
| 137B | Gweithredu | Rhaid ichi beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i unigolion ynghylch penderfyniadau). | 04/10/2017 |
| 139 | Gweithredu | Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi -<br>(a) yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad neu ddull arall o asesiad, a<br>(b) yn esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os oes angen; | 25/03/2018 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ac, os yw'r unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad neu'r asesiad, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweliad neu asesiad (os nad ydych yn cynnal y cyfweliad neu'r asesiad yn Gymraeg heb y gwasanaeth cyfieithu hwnnw). | |
| 140 | Gweithredu | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg. | 04/10/2017 |
| 141 | Gweithredu | Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | 30/03/2016 |
| 142 | Gweithredu | Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | 30/03/2016 |
| 143 | Gweithredu | Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant. | 30/03/2016 |
| 144 | Gweithredu | Pan fyddwch yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn eich gweithle, rhaid i'r cyhoeddiad hwnnw gael ei wneud yn Gymraeg, ac os gwneir y cyhoeddiad yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.<br><br>**Rhaid cydymffurfio â safon 144 ym mhob amgylchiad, ac eithrio:**<br><br>◦ **gwneud y cyhoeddiad yn Gymraeg yn gyntaf yn ystod** | 02/05/2017 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **argyfwng neu ymarfer argyfwng.** | |
| 145 | Hybu | Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) -<br>(a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a<br>(b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw;<br>a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni). | 30/09/2016 |
| 146 | Hybu | Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi -<br>(a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a<br>(b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn -<br>(i) ) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;<br>(ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg. | 30/09/2016 |
| 147 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau. | 30/03/2016 |
| 148 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | |
| 149 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un ai yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ai peidio). | 30/03/2016 |
| 150 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 30/03/2016 |
| 151 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 127), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny. | 30/09/2016 |
| 152 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o -<br>(a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn Gymraeg (yn unol â safon 128), a<br>(b) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn unol â safon 128, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs. | 30/09/2016 |
| 153 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod o bob asesiad a gynhaliwch (yn unol â safon 136) mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag. | 30/03/2016 |
| 154 | Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 136) fel swyddi sy'n gofyn<br>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;<br>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun | 30/03/2017 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | i’r swydd;<br>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu<br>(ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol. | |
| 155 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy’n cofnodi’r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a’r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â’r safonau hynny, ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o’ch swyddfeydd sy’n agored i’r cyhoedd. | 30/03/2016 |
| 156 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi -<br>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy’n delio â’r materion a ganlyn -<br>(i) ) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â’ch cydymffurfedd â’r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a<br>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i’ch staff ynglŷn â delio â’r cwynion hynny,<br>(b) cyhoeddi dogfen sy’n cofnodi’r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac<br>(c) sicrhau bod copi o’r ddogfen honno ar gael ym mhob un o’ch swyddfeydd sy’n agored i’r cyhoedd. | 30/03/2016 |
| 157 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi -<br>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer<br>(i) goruchwylio’r modd yr ydych yn cydymffurfio â’r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,<br>(ii) hybu’r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â’r safonau hynny, a<br>(iii) hwyluso defnyddio’r gwasanaethau hynny, | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (b) cyhoeddi dogfen sy’n cofnodi’r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac<br>(c) sicrhau bod copi o’r ddogfen honno ar gael ym mhob un o’ch swyddfeydd sy’n agored i’r cyhoedd. | |
| 158 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau | (1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy’n delio â’r modd y bu ichi gydymffurfio â’r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.<br>(2) Rhaid i’r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â’ch cydymffurfedd â’r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.<br>(3) Rhaid ichi gyhoeddi’r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae’r adroddiad yn ymwneud â hi.<br>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i’r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.<br>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o’ch adroddiad blynyddol ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o’ch swyddfeydd sy’n agored i’r cyhoedd. | 30/03/2016 |
| 159 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy’n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â’r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 30/03/2016 |
| 160 | Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy’n ymwneud â’ch cydymffurfedd â’r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 161 | Atodol - Llunio Polisi | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 30/09/2016 |
| 162 | Atodol - Llunio Polisi | Rhaid ichi -<br>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn -<br>(i) ) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a<br>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny,<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac<br>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael, ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 30/09/2016 |
| 163 | Atodol - Llunio Polisi | Rhaid ichi -<br>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac<br>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 30/09/2016 |
| 164 | Atodol - Llunio Polisi | (1) Rhaid ichi lunio adroddiad, ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan | 30/09/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.<br>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.<br>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.<br>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.<br>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | |
| 165 | Atodol - Llunio Polisi | Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 30/09/2016 |
| 166 | Atodol - Llunio Polisi | Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 30/09/2016 |
| 167 | Atodol - Gweithredu | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 30/03/2016 |
| 168 | Atodol - Gweithredu | Rhaid ichi -<br>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn - | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (i) ) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a<br>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, a<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich mewnrwyd. | |
| 169 | Atodol - Gweithredu | Rhaid ichi -<br>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer<br>(i) goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,<br>(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a<br>(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny, a<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich mewnrwyd. | 30/03/2016 |
| 170 | Atodol - Gweithredu | (1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.<br>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt) -<br>(a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);<br>(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gadwasoch yn unol â safon 152);<br>(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);<br>(ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn -<br>(i) ) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol<br>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,<br>(iii) od sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu<br>(iv) ad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);<br>(d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.<br>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.<br>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.<br>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | |
| 171 | Atodol - Gweithredu | Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 30/03/2016 |
| 172 | Atodol - Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y | 30/03/2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | |
| 173 | Atodol - Hybu | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau hybu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 30/09/2016 |
| 174 | Atodol - Hybu | Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau hybu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 30/09/2016 |
| 175 | Atodol - Cadw Cofnodion | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael -<br>(a) ar eich gwefan, a<br>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. | 30/03/2016 |
| 176 | Atodol - Cadw Cofnodion | Rhaid ichi ddarparu unrhyw gofnodion a gadwasoch yn unol â'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy i Gomisiynydd y Gymraeg, os bydd y Comisiynydd yn gofyn am y cofnodion hynny. | 30/03/2016 |

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg

Dyddiad: 30/09/2015